# Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**4/3/25**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Huw P Roberts (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Alwyn Jones, Heledd Jones, Alwyn Roberts, Dewi Wyn Jones a Rhodri Jones.

**Hefyd yn bresennol:** Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (Clerc a Swyddog Cyllid)

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

**3150 Croeso:** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**3151 Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Llinos Edwards ac Euros Roberts.

**3152 Datganiadau o fuddiant:** Datganwyd buddiant gan Arwel Ll Jones a Dewi Jones (eitem 3157), ac Alwyn Jones ac Alwyn Roberts (eitemau 3157 a 3161).

**3153 Cofnodion Cyfarfod Chwefror 2025:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**3154 Materion yn codi / materion y Clerc:**

i. Sedd wag y cyngor: Adroddwyd fod un datganiad o ddiddordeb mewn sedd ar y cyngor wedi ei dderbyn, sef cais gan Lis Puw, Bedw Gwynion. Cytunwyd yn unfrydol i gyfethol Lis Puw fel aelod o'r cyngor.

ii. Clirio palmentydd y pentref: Gofynnwyd i'r Cyng Alan Evans i drafod yr anghenion hefo swyddogion Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

iii. Hysbysfwrdd ger Pont Llan: Cytunwyd fod angen holi a yw'r hysbysfwrdd wedi cael ei drwsio.

iv. Gwasanaeth Bysiau T3: Adroddwyd fod awgrym wedi ei wneud y gallai bysai T3 (sydd ddim yn dod i fewn i'r pentre ar hyn o bryd) ddefnyddio maes parcio Ysgol O M Edwards fel man troi a chodi teithwyr, a bod rheolwyr yr ysgol yn hapus hefo'r trefniant. Cytunwyd i drafod hyn ymhellach hefo Trafnidiaeth Cymru, ac i hysbysu'r cyhoedd trwy gyfrwng erthygl yn y Cyfnod os ceir cytundeb ar y trefniant ac amserlen sy'n gweithio i bawb.

v. Cofnodi Enwau Tirwedd Lleol: Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod a gynhaliwyd ar Chwefror 12fed, pryd y trafodwyd dulliau o gasglu, cofnodi ac arddangos enwau tirwedd lleol, a nodwyd y bydd cyfarfod pellach ar Fawrth 12fed.

vi. Cerrig Beddi Mynwent yr Eglwys: Adroddwyd fod cais cychwynnol wedi ei gyflwyno am ganiatâd i symud rhai cerrig beddi ym Mynwent yr Eglwys, hyn er mwyn hwyluso trefniadau mynedfa a parcio.

vii. Coeden Ywen Mynwent yr Eglwys: Adroddwyd fod trafodaeth gychwynnol wedi bod gyda swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri ynglŷn â thocio neu dorri'r goeden, gan blannu coed ifanc yn ei lle.

viii. Ysgol Ddeintyddiaeth Bangor: Derbyniwyd llythyr gan swyddfa Sian Gwenllian AS yn diolch am gefnogaeth y cyngor i'w hymgyrch i sefydlu Ysgol Ddeintyddiaeth ym Mangor.

ix. Peiriant Graeanu Palmentydd: Cafwyd trafodaeth ar fanteision prynu peiriant o'r fath, a gofynnwyd i Alan Evans i drafod y goblygiadau gyda Chyngor Gwynedd.

**3155 Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Alan Evans yn nodi fod swyddogion Cyngor Gwynedd wedi archwilio cyflwr ffordd Cwm Croes, ac wedi dod i'r casgliad fod y ffordd yn gadarn, ond bod angen tarmacio rhannau o'r ffordd rhwng Talardd a Nant y Barcud. Adroddwyd fod gwelliannau i ffordd Penantlliw wedi eu cwblhau. Nodwyd fod problem y caeadau biniau ym Mhenantlliw wedi ei datrys, a bod y cyngor yn paratoi gwelliannau i ganllaw Pont y Llan. Cafwyd trafodaeth bellach ar broblemau llifogydd ger Pont Lliw, a nodwyd fod yr ansicrwydd yn parhau ynglŷn â rôl Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Gwynedd a NMWTRA i ganfod datrysiad.

**3156 Derbyniwyd adroddiadau'r is-bwyllgorau:**

1. Pwyllgor Datblygu: Nodwyd yr angen i drafod dyfodol safle adeiladu wag ym Maes y Pandy sydd ym mherchenogaeth Grŵp Cynefin.
2. Pwyllgor Mynwentydd: Nodwyd yr angen i glirio a thacluso'r fynwent cyn y Pasg.
3. Bioamrywiaeth: Adroddwyd fod y cynllun i reoli'r goedlan fer y Fynwent Newydd yn parhau, hyn mewn cydweithrediad â disgyblion Ysgol O M Edwards, a bod cynllun Awyr Dywyll y Parc Cenedlaethol hefyd yn parhau.
4. Nadolig: Heb gyfarfod yn ddiweddar.
5. Asedau: Adroddwyd fod meinciau'r pentref wedi eu hatgyweirio, a'u bod yn barod i'w paentio. Nodwyd hefyd fod y fainc ar y groesffordd mewn cyflwr gwael, a bod angen ei symud o'r safle, a bod angen paentio'r meinciau ger y Gilfach Goffa. Diolchwyd i'r Pwyllgor Asedau am eu gwaith.
6. Cyllid: Gwnaed trefniadau i'r Pwyllgor Cyllid gyfarfod ar Fawrth 20fed.

**3157 Materion Ariannol:** Cymeradwywyd taliadau fel â ganlyn:

Cyflog y Clerc.
Cytundeb glanhau y toiledau.
Anfoneb atgyweirio'r toiledau.
Anfoneb am hysbyseb Sedd Wag y Cyngor.
Anfoneb am waith cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus am 2024.
Nodwyd fod incwm y toiledau cyhoeddus am fisoedd Ionawr a Chwefror yn £94.71.

**Ceisiadau ariannol:** Cytunwyd i gyfrannu £750 at Neuadd Bentref Llanuwchllyn, a £100 yr un i Aelwyd Penllyn, CFFI Glannau Tegid, Clwb Pêl-droed Llanuwchllyn, Teulu Gwalia, Sioe Llanuwchllyn, Llen y Llannau, Criw Eirys, Gŵyl Llan, Eisteddfod y Llungwyn, Theatr Derek Williams, Y Cyfnod, CffI Meirionnydd, Urdd Meirionnydd a Cantref.

**3158 Menter Gymunedol Llanuwchllyn:** Adroddwyd fod y gwelliannau i'r Eagles (cegin, ardal y bar, atgyweirio'r to ac addasu'r sustem wresogi) wedi ei gwblhau, a bod y gwaith o osod paneli solar ar y to wedi cychwyn. Nodwyd fod arian cyhoeddus wedi ei ddenu tuag at y gwaith yma. Adroddwyd hefyd fod y fenter yn parhau i ymchwilio i ddulliau o ddarparu tai cymunedol yn y pentref.

**3159 Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Nodwyd fod y gwaith o uwchraddio Canolfan Bro Tegid yn dod yn ei flaen yn dda, a bod y prosiect wedi cynnig gwaith i nifer fawr o grefftwyr lleol.

3160 **Materion cynllunio:** Derbyniwyd copi o ddogfen 'Cynghorau Cymuned a'r Sustem Gynllunio' gan y Parc Cenedlaethol, dogfen oedd yn nodi sail i gefnogaeth neu wrthwynebiad cynghorau cymuned i gais cynllunio, ac arweiniad ar sut i gyflwyno'r sylwadau hynny i Adran Gynllunio'r Parc Cenedlaethol.

3161 **Gohebiaeth:**

i. Adnewyddu canllaw Pont Llan: Derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd eu bod yn bwriadu adnewyddu canllaw Pont Llan.
ii. Trwydded Eiddo Neuadd Bentref Llanuwchllyn: Derbyniwyd ymgynghoriad gan Gyngor Gwynedd ar gais Pwyllgor Neuadd Bentref Llanuwchllyn am Drwydded Eiddo, trwydded fyddai'n cynnwys yr hawl i werthu alcohol yn y neuadd yn achlysurol. Rhoddwyd cefndir Pwyllgor y Neuadd a'r rhesymeg dros gyflwyno'r cais. Nodwyd yr angen i roi sylwadau (cefnogi neu wrthwynebu) ar sail amcanion trwyddedu cyhoeddus, sef atal trosedd ac anrhefn, diogelwch y cyhoedd, atal niwsans cyhoeddus ac amddiffyn plant rhag niwed. Cytunwyd fod angen i holl aelodau'r cyngor i gael cyfle i ddweud eu barn, felly gofynnwyd i'r clerc gylchredeg y wybodaeth i'r aelodau a gofyn i'r holl gynghorwyr gynnig eu sylwadau unigol.
iii. Llythyr Erthygl 4 Parc Cenedlaethol Eryri: Derbyniwyd hysbysiad o gadarnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer rheoli'r defnydd o dai preswyl.
iv. Derbyniwyd copi o Ganllaw Cynllunio Atodol: Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau (ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr) gan y Parc Cenedlaethol.
v. Ras yr Aran: Nodwyd fod trefnwyr Ras yr Aran wedi gofyn am ganiatâd i ddefnyddio mae parcio'r fynwent ar Fawrth 29ain, ond eu bod yn deall na fydd y maes parcio ar gael pe byddai angladd yn y fynwent.
vi. Defib i Gwm Cynllwyd: Derbyniwyd llythyr yn gofyn a fyddai'r cyngor yn fodlon derbyn cyllid i brynu a gosod defib yng Nghwm Cynllwyd, ac i gynnal a chadw'r offer wedyn. Cytunwyd mewn egwyddor i'r cais, a gofynnwyd i'r Pwyllgor Asedau edrych i fewn ymhellach i'r mater.

3162 **Ystyried materion lleol y Cynghorwyr:** Nid oedd materion pellach i'w trafod.

3163 **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 1/4/25 am 7.30pm.